

Y Ffordd Gywir: Dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.

Crynodeb byr (addasiad o fatrics
wedi'i greu gan Gyngor
Abertawe)



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

EGWYDDOR 'Y Ffordd Gywir'	MAE HYN YN GOLYGU:	BYDD SEFYDLIADAU YN
GWREIDDIO	Sicrhau bod Hawliau Plant (CCUHP) yn ganolog wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc	<ul style="list-style-type: none"> ○ Creu cysylltiadau â Hawliau Plant (CCUHP) yn eu cynlluniau. ○ Cytuno ar strwythur ar gyfer sut maen nhw'n sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cymryd i ystyriaeth ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau. ○ Sicrhau bod gan arweinwyr a staff wybodaeth dda am hawliau plant (CCUHP), a'u helpu nhw i ddeall sut gall hynny fod o fudd i'w gwaith.
Cydraddoldeb a PHEIDIO Â CHAMWAHANIAETHU	Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod ac nad oes rhaid i unrhyw blentyn oddef cyfleoedd gwael mewn bywyd oherwydd camwahaniaethu	<ul style="list-style-type: none"> ○ Gofalu bod gan staff yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddeddf Cydraddoldeb ac yn derbyn hyfforddiant i gynyddu eu hymwybyddiaeth o anghenion gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc. ○ Rhoi gwybodaeth i blant mewn iaith neu fformat sy'n briodol ar gyfer eu hoed, eu diwylliant neu eu gallu. ○ Dadansoddi data ac ystyried pa grwpiau o blant sydd ddim yn cael mynediad i'ch gwasanaethau, a pham — gallu defnyddio ein hasesiad ni o effaith ar hawliau plant.
GRYMUSO plant a phobl ifanc	Rhoi gwybodaeth a hyder i blant i ddefnyddio'u hawliau a galw i gyfri sefydliadau ac unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau.	<ul style="list-style-type: none"> ○ Rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i blant iddyn nhw fedru dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw (e.e. adroddiadau mewn iaith syml). ○ Cynnwys plant a phobl ifanc trwy roi'r cyfleoedd/hyfforddiant/wybodaeth angenrheidiol iddyn nhw i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. ○ Datblygu perthynas gyda grwpiau o bobl ifanc, i roi cyfle iddyn nhw gyflwyno syniadau ac adborth yn rheolaidd, e.e. grwpiau/fforymau ieuenctid.



EGWYDDOR 'Y Ffordd Gywir'	MAE HYN YN GOLYGU	BYDD SEFYDLIADAU YN:
CYFRANOGIAD	Gwrando ar blant a chymryd eu barn o ddifri (fel mae Erthygl 12 — CCUHP yn gwarantu).	<ul style="list-style-type: none"> ○ Datblygu targedau clir ar gyfer gwranddo ar blant a phobl ifanc o grwpiau ar y cyrion. ○ Cynnwys plant yn uniongyrchol wrth ddylunio, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn (gall hyn gynnwys bod plant yn ymwneud â recriwtio staff). ○ Mabwysiadu Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, i sicrhau bod profiad plant o gyfranogi yn un safonol.
ATEBOLRWYDD	Dylai sefydliadau ac unigolion fod yn atebol i blant am y penderfyniadau a'r camau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cyhoeddi diweddariad blynyddol hygyrch yn dangos sut maen nhw wedi gweithio tuag at wireddu hawliau plant. ○ Rhoi adborth rheolaidd i blant mewn fformat addas. ○ Rhoi gwybodaeth hygyrch i blant ynghylch sut mae rhoi adborth am wasanaethau neu gyflwyno cwyn a galw staff i gyfrif.

Dyma sut rydyn ni'n ei wneud yn CPC (gweler tudalen 20 o'n cynllun tair blynedd):
<https://www.complantcymru.org.uk/publication/ein-cynllun-tair-blynedd-2019-22/>